


Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 Trosolwg



Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 – trosolwg

Cynnwys

Crynodeb	2
Adolygiad prisiau Ofwat	4
Mwy i gwsmeriaid: cyflawni'r canlyniadau y mae cwsmeriaid am eu gweld	6
Mwy i gwsmeriaid a chwmnïau: cydbwysu risg a gwobr	8
Cwsmeriaid yn talu llai	12
Mwy am lai ar draws Cymru a Lloegr	16
Gosod fframwaith ar gyfer y dyfodol	18



Crynodeb

Mae canlyniadau ein hadolygiad prisiau yn golygu y bydd cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr yn cael mwy gan eu cwmnïau dŵr tra'n talu llai am wasanaethau dros y pum mlynedd nesaf.

Caiff cynlluniau cwmnïau ar gyfer darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff eu hysgogi gan beth y mae eu cwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas am ei gael, nawr ac yn y dyfodol. Golyga hyn bod cwmnïau wedi addo cyflawni mwy ar gyfer eu cwsmeriaid.

Mwy

Buddsoddiad gwerth £44 biliwn
mewn gwella gwasanaethau, gwella gwytnwch
a diogelu'r amgylchedd. Mae hyn yn cyfateb i
gyfartaledd buddsoddiad gwerth £2,000
ar gyfer pob cartref dros
y pum mlynedd nesaf



522 o
ymrwymiadau
perfformiad wedi'u
teilwra

a ddatblygwyd gyda chwsmeriaid
er mwyn darparu gwasanaeth o
ansawdd uchel – gyda gwobrau
a chosbau i'r cwmnïau er
mwyn cymell
llwyddiant

50 o
draethau
gyda gwell
ansawdd dŵr
ar gyfer
ymdrochi

1 miliwn yn fwy o bobl yn derbyn cymorth drwy gynlluniau i'w cynorthwyo gyda thalu eu bil



32% o leihad yn yr amser y mae amhariadau yn effeithio ar gyflenwad dŵr

370 miliwn litr o ddŵr yn cael ei arbed bob dydd trwy fynd i'r afael â gollyngiadau a hyrwyddo effeithlonrwydd



Am lai

33% yn llai o eiddo yn dioddef llifogydd gan ddŵr gwastraff o garthffosydd

5% o leihad ar gyfartaledd mewn biliau dŵr dros y pum mlynedd nesaf

Adolygiad prisiau Ofwat

Mae gennym rôl mewn diogelu buddiannau cwsmeriaid dŵr a dŵr gwastraff. Fel rhan o hyn, bob pum mlynedd byddwn yn gosod terfynau ar y prisiau y gall cwmnïau eu codi ar eu cwsmeriaid.

Ar gyfer yr adolygiad prisiau hwn (a elwir hefyd yn 'PR14') gosodom fframwaith a oedd yn canolbwyntio ar gwmnïau'n darparu'r gwasanaethau sy'n bwysig i'w cwsmeriaid ac i'r amgylchedd. Gwnaethom herio cynlluniau busnes cwmnïau i wneud yn siŵr bod cymhelliannau a chosbau ar waith er mwyn ysgogi cyflawniad y gwasanaethau hyn am y gost fwyaf effeithlon.

Mae gennym hefyd rôl mewn sicrhau bod cwmnïau effeithlon yn gallu ariannu eu swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr y gall buddsoddwyr gael enillion rhesymol am eu buddsoddiad (yr hyn a alwn ni yn 'gost cyfalaf'). Rydym wedi asesu cydbwysedd risg a gwobr - yn cynnwys cost cyfalaf a pharmedrau ariannol allweddol eraill - gan roi ystyriaeth i'r dystiolaeth marchnad ddiweddaraf.

Gyda'r adolygiad prisiau hwn rydym wedi gwneud rhai newidiadau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio, a bydd yr egwyddorion hyn wrth galon sut y byddwn yn gweithio yn y dyfodol.

Mae'r adolygiad prisiau hwn wedi golygu newid diwylliant sylweddol ymhlith cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff. Mae wedi golygu:

Gwrando ar gwsmeriaid – mae cwmnïau wedi ymgysylltu gyda dros 250,000 o gwsmeriaid yn y sgwrs fwyaf erioed gyda chwsmeriaid yn y sector cyfleustodau.

Canolbwyntio ar yr hyn sydd fwyaf pwysig – mae cwmnïau wedi gweithio gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill i lunio cynlluniau busnes sy'n adlewyrchu beth sydd wir yn bwysig i gwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas, nawr ac yn y dyfodol.

Codi'r bar ar gyfer perfformiad cwmnïau – naill ai mewn cadw costau i lawr neu mewn gwella gwasanaeth.

Hyrwyddo tryloywder – mae ein dull tryloyw wedi datgelu gwybodaeth a fydd yn annog sgysiau ac yn rhoi atebolrwydd ar draws y sector.

Rhoi cymhelliannau i gwmnïau gyflawni'n effeithlon –

rydym wedi eu hannog i chwilio am yr atebion mwyaf cost effeithlon i gyflawni gwelliannau i wasanaethau.

Creu newid mewn llywodraethu a diwylliant corfforaethol –

mae Byrddau cwmnïau wedi cymryd cyfrifoldeb am lunio a chyflawni eu cynlluniau busnes.

Alinio buddiannau buddsoddwyr gyda buddiannau cwsmeriaid – caiff cwmnïau eu gwobrwyo am wneud mwy o'r hyn y mae cwsmeriaid yn ei ddymuno a'u cosbi pan na fyddant yn llwyddo.

Gwnaethom fabwysiadu dull seiliedig ar risg ar gyfer asesu cynlluniau busnes cwmnïau ac unrhyw ymyriadau a ddilynodd. Canolbwyntiom ein sylw ar y materion a allai gael yr effaith fwyaf ar gwsmeriaid.

Yn gyffredinol, fe welsom newid sylweddol o fewn y sector, gyda chwmnïau'n ymateb i'n her. Lle'r oedd cwmnïau wedi ymateb yn dda roeddem yn gallu caniatáu mwy o'u cynlluniau.

Er enghraifft, penderfynom fod South West Water ac Affinity Water yn gwmnïau 'gwell' oherwydd mai ychydig iawn o newidiadau oedd angen i'w cynlluniau. Mae'r ddau gwmni hwn wedi elwa o bolisi 'gwneud dim niwed', sy'n golygu eu bod wedi eu hynysu rhag rhai newidiadau a fyddai wedi eu gwneud yn waeth eu byd – er enghraifft, ni wnaeth cost cyfalaf is, a oedd yn berthnasol i gwmnïau nad oedd yn rhai 'gwell', effeithio arnynt. Gwnaethant hefyd dderbyn manteision uniongyrchol yn ariannol ac o ran enw da. Mae'r dull hwn yn rhoi cymhelliannau tymor hwy i gwmnïau wella safonau'r cynlluniau y maent yn eu cyflwyno ac yn symud y ffin ar gyfer beth all y sector ei gyflawni ar gyfer cwsmeriaid.

Roedd angen i gynllun busnes pob cwmni arall wella neu gael ei gefnogi gan dystiolaeth bellach. Llwyddodd rhai cwmnïau i ddelio â'n hadborth ar eu cynlluniau yn gyflym, roedd gan eraill fwy o waith i'w wneud ac yn y diwedd llwyddasant i gau'r bwch, a themlodd eraill bod ein hadborth yn fwy heriol. Pan oedd angen, gwnaethom ymyrryd er mwyn gwneud yn siŵr bod cwsmeriaid yn cael y fargen orau.

Roedd dau gynllun busnes yn sefyll allan

Yr her fwyaf erioed i'r sector ar effeithlonrwydd

Edrychom ar y costau a gyflwynwyd gan bob cwmni a'u hasesu yn erbyn yr hyn yr oeddem ni'n ei ystyried oedd y costau effeithlon ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth hwnnw.

Ar y cyfan, cyflwynodd y cwmnïau £45.7 biliwn o wariant yr oeddent hwy'n ddweud oedd yn angenrheidiol. Gwnaethon herio pan nad oedd costau cwmnïau yn effeithlon ac wedi eu cyfiawnhau'n dda gan ganiatáu dim ond £44.3 biliwn.

Uchafbwyntiau cynllun busnes Affinity Water

- Cynllun cwmni a gweledigaeth arloesol – er enghraifft, adrodd ar berfformiad ar lefel gymunedol yn ogystal ag ar lefel cwmni.
- Defnyddio canlyniadau ymgysylltu â chwsmeriaid er mwyn helpu i siapio atebion i heriau mawr – yn arbennig diffyg o ran cyflenwad/galw.
- Tystiolaeth argyhoeddiadol bod ei gynllun cyfanwerthol yn effeithlon. Cynnig cyflawni arbedion effeithlonrwydd mewn costau manwerthol er mwyn gwrthbwysu unrhyw gynnydd mewn prisiau sydd y tu allan i reolaeth y cwmni.
- Tystiolaeth argyhoeddiadol bod y Bwrdd wedi rhoi cyfeiriad strategol ac arweiniad, ac wedi sicrhau ei hun bod cynllun busnes y cwmni yn un o ansawdd uchel.



Uchafbwyntiau cynllun busnes South West Water

- Rhaglen ymgysylltu dwy flynedd: deall blaenoriaethau cwsmeriaid a rhoi opsiynau buddsoddiad a biliau i gwsmeriaid ddewis ohonynt.
- Ymateb i dderbynioldeb cwsmeriaid o gynnydd arfaethedig mewn biliau drwy leihau buddsoddiad mewn rhai meysydd a herio ei hun ymhellach ar effeithlonrwydd.
- Ystod gynhwysfawr o gynlluniau i gefnogi cwsmeriaid a fyddai'n ei gweld hi'n anodd fforddio biliau, yn cynnwys tariff cymdeithasol a roddwyd ar waith yn 2013-14.
- Adduned i rannu manteision llwyddiant yn deg rhwng cwsmeriaid a buddsoddwyr drwy 'Watershare'.



Mwy i gwsmeriaid: Cyflawni'r canlyniadau y mae cwsmeriaid am eu gweld

Ymgysylltodd cwmnïau yn y sgwrs fwyaf erioed gyda chwsmeriaid ynglŷn â'r canlyniadau y maent am eu gweld nawr ac yn y dyfodol o ran y:

- gwasanaeth y maent yn ei dderbyn; a'r
- manteision a fydd yn cael eu cyflawni ar gyfer yr amgylchedd a'r gymdeithas yn ehangach.

Ymgysylltodd cwmnïau yn uniongyrchol â dros 250,000 o gwsmeriaid. Yna gwnaethant ddatblygu set o ganlyniadau y dywedodd eu cwsmeriaid eu bod am eu gweld ac yn barod i dalu amdanynt. Gwnaethant ddatblygu 522 o ymrwymadau perfformiad unigol er mwyn cyflawni'r canlyniadau hynny.

Bydd y canlyniadau hyn yn rhoi ystod o fanteision i gwsmeriaid, yn cynnwys:

- gwell gwasanaeth cwsmeriaid;
- defnydd mwy effeithlon ar ddŵr;
- gwytnwch hirdymor cyflenwadau dŵr; ac
- amgylchedd glanach, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym wedi profi'r costau y dywed y cwmnïau y byddant eu hangen er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn. Lle roeddem yn credu y gallai cwmni gyflawni'r canlyniadau yn fwy cost effeithlon, rydym wedi lleihau'r gwariant a ganiateir.

Gwnaethom yn siŵr fod cwmnïau wedi ymgynghori â chwsmeriaid ynglŷn â sut y dylai perfformiad yn erbyn eu lefelau ymrwymiad gael eu gwobrwo neu eu cosbi. Mewn rhai meysydd mae cwsmeriaid yn fodlon talu mwy os bydd eu cwmni yn cyflawni mwy na'r ymrwymadau y gwnaeth eu datgan (mewn geiriau eraill, gall cwmnïau gael gwobr am 'uwchberfformio'). Os na fydd cwmnïau'n cyflawni eu hymrwymadau, cânt eu cosbi'n ariannol. Bydd perfformiad cwmnïau yn dryloyw iawn, felly byddem yn disgwyl budd neu niwed i enw da cwmnïau yn dibynnu ar eu perfformiad.

Beth yw canlyniad?

Affinity Water



“Gwneud yn siŵr bod gan ein cwsmeriaid ddigon o ddŵr, tra'n gadael mwy o ddŵr yn yr amgylchedd”



Enghraifft o ymrwymiad perfformiad:
Lleihad mewn cyfartaledd defnydd dŵr

Mewn ymateb i adborth gan gwsmeriaid mae Affinity Water wedi ymrwmo i leihau'r galw rhwng 2015 a 2020 drwy fesuryddion a rhaglen effeithlonrwydd dŵr. Mae hefyd wedi ymrwmo i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon, yn cynnwys toriad gan 14% mewn gollyngiadau erbyn 2020.

Anglian Water



“Amgylchedd ffyniannus”



Enghraifft o ymrwymiad perfformiad:
Traethau gydag ansawdd dŵr 'rhagorol'

Mae Anglian Water wedi ymrwmo i gynyddu canran ei draethau sydd ag ansawdd dŵr 'rhagorol' fel y diffinnir o dan Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi ddiwygiedig yr Undeb Ewropeaidd o 58% i 67%.

Hyblygrwydd i wario arian lle mae ei angen fwyaf

Dŵr Hafren Trent

“Byddwn yn sicrhau y bydd dŵr wastad yno pan fyddwch ei angen”

Enghraifft o ymrwymiad perfformiad:
Cyflawni canlyniad cynllun gwytnwch Birmingham

Mae Dŵr Hafren Trent wedi ymrwymo i gyflawni cynllun mawr i wella gwytnwch Birmingham – Dyfrbont Cwm Elan. Caiff llwyddiant y cynllun o ran rhoi gwytnwch i gwsmeriaid ei asesu drwy fesur y gallu a gyflawnir gan y prosiect. Gosodir cosb mewn cymhareb i unrhyw ddiffyg yn y gallu a gyflawnir.



South West Water

“Diogelu’r amgylchedd”

Enghraifft o ymrwymiad perfformiad:
Nifer yr erwau o ffermdir o dan reolaeth ddiwygiedig i gyflawni canlyniadau amgylcheddol a nifer y ffermydd lle mae cynllun wedi ei gytuno i fod o fudd i’r amgylchedd.



Bydd ‘rhaglen meddwl i fyny’r gadwyn gyflenwi’ yn gweld cynnydd mewn dulliau ffermio sy’n rhoi ystyriaeth i anghenion dalgylchoedd dŵr lleol (‘rheolaeth dalgylch’) – gan fwy na dyblu nifer y ffermydd sy’n gysylltiedig (o 650 i 1,400).

Mewn adolygiadau prisiau blaenorol gwnaethom rannu gwariant cwmnïau yn ddwy ffynhonnell:

- gwariant cyfalaf (buddsoddiad hirdymor); a
- gwariant gweithredol (costau rhedeg o ddydd i ddydd).

Roeddem wedi gofyn iddynt roi dadansoddiad o’u holl gostau, yn cynnwys costau ar gyfer prosiectau penodol (megis adeiladu gwaith trin dŵr newydd), a gwnaethom fesur eu perfformiad yn erbyn cyflawniad y prosiectau hynny. Roedd y dull hwn yn gwobrwyo gwariant cyfalaf i raddau mwy na gwariant gweithredol, a wnaeth gynorthwyo i ddod â buddsoddiad oedd ei angen yn fawr i’r sector, ond nid oedd bob amser yn annog cwmnïau i ddod o hyd i’r ateb mwyaf effeithlon yn gyffredinol.

Ar gyfer yr adolygiad prisiau hwn rydym wedi rhoi un ffigur cyfanswm gwariant i gwmnïau (yr hyn a elwir gennym yn ‘totex’). Mae hyn yn golygu y gallant ddewis yr atebion gorau i gyflawni’r canlyniadau y maent wedi ymrwymo iddynt.

Mae canolbwyntio ar ganlyniadau dros y pum mlynedd nesaf yn hytrach nag ar gynlluniau penodol yn golygu y gall cwmnïau ddewis gwario’r arian yr ydym yn caniatáu iddynt ei adennill gan gwsmeriaid ar:

- fuddsoddi mewn seilwaith newydd;
- cynnal a chadw seilwaith presennol; neu
- fabwysiadu atebion eraill.

Rhydd hyn gyfleoedd a chymhelliannau iddynt ddatblygu atebion arloesol, a fydd yn arwain at enillion effeithlonrwydd hirdymor i gwsmeriaid.

Rydym hefyd wedi gwahanu’r costau sy’n gysylltiedig â gwahanol rannau o fusnes cwmnïau i:

- gostau cyfanwerthol (ar gyfer dŵr gwastraff ac ar gyfer dŵr), sef y costau sy’n gysylltiedig â chynnal a datblygu’r rhwydwaith ac asedau eraill sy’n darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff i gwsmeriaid; a
- chostau manwerthol (ar gyfer cwsmeriaid preswyl domestig a chwsmeriaid busnes), sef y costau sy’n gysylltiedig â gwasanaethau cwsmeriaid megis bilio, trin taliadau, rheoli dyledion a darllen mesuryddion.

Ar y cyfan, mae’r newidiadau hyn i’r ffordd y mae cwmnïau’n edrych ar gostau yn cymhell effeithlonrwydd ac arloesedd, ac yn caniatáu i olau gael ei daflu ar wir gost y gwasanaethau y mae cwsmeriaid yn talu amdanynt.

Mwy i gwsmeriaid: Cyflawni canlyniadau y mae cwsmeriaid eu heisiau

Mae hi nawr yn bryd i gwmnïau weithredu eu cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf mewn modd sy'n rhoi manteision gwirioneddol i gwsmeriaid

Gwelliannau gwasanaeth sector cyfan y caiff cwmnïau eu cymell i'w cyflawni ar gyfer eu cwsmeriaid rhwng 2015 a 2020

100% o gydymffurfiad gyda'r lefel targed ar gyfer ansawdd dŵr yfed

34% o leihad yn nifer y cwsmeriaid sy'n cysylltu â'u cwmni lleol ynglŷn â phroblemau gyda lliw, blas neu arogl dŵr

33% o leihad yn nifer yr eiddo sy'n dioddef llifogydd gan ddŵr gwastraff o garthffosydd


32% o leihad yn yr amser a gollir oherwydd amhariadau i gyflenwad

370 miliwn litr o ddŵr y dydd yn cael ei arbed drwy fynd i'r afael â gollyngiadau a hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr – digon i wasanaethu'r holl gartrefi yn Birmingham, Lerpwl a Leeds

Gwelliannau gwasanaeth sector cyfan y caiff cwmnïau eu cymell i'w cyflawni er mwyn diogelu'r amgylchedd a bodloni eu rhwymedigaethau amgylcheddol statudol

Cynnydd yn nifer y mesuryddion dŵr mewn eiddo preswyl – o 48% i 61%

Lleihau achosion o lygredd – targed o sero ar gyfer digwyddiadau llygru difrifol, gyda digwyddiadau eraill yn lleihau gan 22%



Datblygu mwy na 100 o gynlluniau rheoli dalgylch, yn cynnwys gweithio gyda ffermwyr a pherchnogion tir er mwyn helpu i wella draeniad a rheoli llygredd

Perthynas gref ac effeithiol

Mae'r berthynas rhwng cwmnïau a'u cwsmeriaid yn hanfodol, ond mae mathau eraill o berthynas hefyd yn bwysig, yn cynnwys y rheini sy'n effeithio ar yr amgylchedd, yr economi a'r gymdeithas yn ehangach.

Fel rhan o'r adolygiad prisiau hwn, sefydlodd y cwmnïau grwpiau her cwsmeriaid (CCGau) annibynnol, a oedd yn cynnwys:

- cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr;
- cawdurdodau lleol;
- cbusnesau; a
- cgrwpiau amgylcheddol.

Chwaraeodd CCGau rôl bwysig mewn cynorthwyo i graffu ar gynlluniau busnes cwmnïau. Gwnaethant:

- herio ansawdd y broses ymgysylltu â chwsmeriaid;
- herio pa mor dda yr oedd canlyniadau arfaethedig cwmnïau a'r cymhellion cyflawni canlyniad yn adlewyrchu'r ymgysylltiad â'u cwsmeriaid a blaenoriaethau cwsmeriaid; a
- darparu adroddiadau annibynnol yn ystod y broses adolygu prisiau.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid yn ystod yr adolygiad prisiau hwn fel y gallwn fod yn siŵr bod ein penderfyniadau yn rhoi'r canlyniad gorau i gwsmeriaid. Wrth wneud ein penderfyniadau terfynol rydym wedi rhoi ystyriaeth i'r safbwyntiau y gwnaethom eu derbyn gan yr holl rhanddeiliaid.

Cyrraedd targedau cydymffurfiad amgylcheddol – yn cynnwys dŵr glanach mewn dros 50 o draethau

Mwy i gwsmeriaid a chwmnïau: Cydbwysu risg a gwobr

Drwy'r cymhelliannau yr ydym yn eu rhoi ar waith yn yr adolygiad hwn rydym yn alinio buddiannau rheolwyr a buddsoddwyr cwmnïau gyda buddiannau cwsmeriaid.

Mae'r enillion y gall cwmnïau eu cynnig i'w buddsoddwyr wedi eu seilio ar becyn o wobrau a chosbau effeithiol. Mae hyn yn fuddiol i gwsmeriaid drwy:

- roi cymhelliannau ystyrlon i ddarparu'r gwasanaeth gorau;
- rhoi cyfrifoldeb ar gwmnïau i reoli unrhyw risgiau y mae ganddynt rywfaint o reolaeth drostynt; a
- rhannu'r arbedion os bydd eu cwmni dŵr lleol yn cyflawni ei gynllun o dan y rhagfynegiadau cost.

Rydym wedi cydbwysu lefel y risg a'r gwobrau – yn cynnwys cost cyfalaf a pharmedrau ariannol allweddol eraill – gan roi ystyriaeth i dystiolaeth ynglŷn ag amodau presennol y farchnad ariannol.

Ar lefel uchel, mae'r pecyn o wobrau a chosbau effeithiol yn cynnwys:

Adenillion sylfaenol

Adenillion 'sylfaenol' o 3.74%, ffigur y gwnaethom ei osod drwy edrych ar beth yr oedd buddsoddwyr mewn busnesau risg isel rheoledig eraill ei angen pan fyddant yn buddsoddi eu harian. Caiff rhan o hwn ei ennill gan adenillion sylfaenol o 3.6% ar yr asedau cyfanwerthol, a rhan drwy orswm 1% ar filiau manwerthol. Mae ein her effeithlonrwydd yn golygu y bydd angen i gwmnïau weithio'n galetach nag erioed i gyflawni lefel sylfaenol o adenillion.

Cystadleuaeth ar gyfer cwsmeriaid busnes

Am y ddwy flynedd nesaf bydd cwmnïau'n cadw eu cwsmeriaid busnes presennol ac yn ennill gorswm o 2.5%. Fodd bynnag, yn 2017 caiff yr adran hon o'r busnes ei hagor i gystadleuaeth, a gall cwmnïau wneud yn well neu'n waeth yn dibynnu ar eu llwyddiant mewn rheoli costau ac ennill cwsmeriaid.

Perygl tanberfformio

Efallai y bydd cwmnïau'n ennill llai na'r adenillion sylfaenol os byddant, er enghraifft, yn:

- gwario mwy nag yr ydym yn ei ganiatáu er mwyn cyflawni eu rhaglen fuddsoddi;
- methu â chyflawni'r ymrwymadau y maent wedi eu gwneud i gwsmeriaid; ac
- os yw cost dyled yn codi'n gynt nag a ddisgwyliwn.

Bydd yn rhaid i gwmnïau dalu iawn i gwsmeriaid os byddant yn methu â chyflawni eu hymrwymadau perfformiad.

Cyfle i uwch-berfformio

I'r gwrthwyneb, gall cwmnïau wneud yn well os byddant yn:

- cyflawni eu rhaglen fuddsoddi am lai;
- uwch-berfformio eu hymrwymadau perfformio; a
- dod o hyd i ffynonellau cyllido am gost ariannu is nag y gwnaethon ni ei dybio.

Yn yr holl achosion hyn, bydd cwsmeriaid yn elwa dros gyfnod o amser.

Gosod cost cyfalaf

Ar gyfer y pum mlynedd a gwmpesir gan yr adolygiad prisiau hwn (2015 hyd 2020), rydym wedi gosod cost cyfalaf ar gyfer y busnes cyfan yn 3.74%. Mae hwn yn ostyngiad o'r 5.1% y gwnaethom ei osod yn yr adolygiad prisiau diwethaf ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2010 a 2015.

Isod, rydym yn nodi effaith yr ymyriadau yn lefel y gost cyfalaf yr ydym wedi ei wneud yn ystod yr adolygiad prisiau hwn

Rhagfyr 2013 Cynlluniau busnes

Pan gyflwynodd cwmnïau eu cynlluniau busnes ym mis Rhagfyr 2013 fe ddywedasant fod cost cyfalaf rhwng 4.1% a 4.9%. Nid oeddem yn teimlo bod unrhyw rai ohonynt wedi cynnig ffigur a oedd yn alinio gyda thystiolaeth marchnad.

Ionawr 2014 Canllaw risg a gwobr

Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddodd ganllaw ar gyfer cwmnïau ynglŷn â risg a gwobrau, a oedd yn cynnwys ein barn ni am gost cyfalaf o 3.85%. Ac eithrio Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, derbyniodd pob cwmni ein barn.

Awst 2014 Penderfyniadau drafft

Gwnaethom ein penderfyniadau drafft ym mis Awst ar sail yr un gost cyfalaf o 3.85%. Dywedem y byddem yn ystyried y dystiolaeth marchnad ddiweddaraf wrth wneud ein penderfyniadau terfynol.

Rhagfyr 2014 Penderfyniadau

Mae'r gost cyfalaf o 3.74%, sy'n seiliedig ar edrych ymlaen ar gostau cyllido dros y cyfnod pum mlynedd 2015 hyd 2020, yn caniatáu i gwsmeriaid elwa o leihad diweddar yng nghost ariannu drwy filiau is, tra'n cynnig adenillion rhesymol ar fuddsoddiad i randdeiliaid cwmnïau effeithlon.

Bydd gan y ddau gwmni 'gwell' gost cyfalaf o 3.85% a oedd wedi ei gynnwys yn eu penderfyniadau drafft. Mae hyn oherwydd bod ein hegwyddor 'gwneud dim niwed' yn eu diogelu rhag cwmpwyl dilynol mewn cost cyfalaf sy'n berthnasol i'r cwmnïau eraill.

Mae ein her
ar gost cyfalaf wedi
golygu dros £2 biliwn
o arbedion i
gwsmeriaid

Cost cyfalaf a chwmnïau bach

Rydym wedi caniatáu i Portsmouth Water a Sembcorp Bournemouth Water gael cost cyfalaf premiwm o 0.15%. Dangosodd y cwmnïau bod eu maint cymharol fach yn golygu na allant gael cyllid ar yr un telerau â chwmnïau mwy, a'u bod yn rhoi budd i gwsmeriaid oherwydd eu bod yn gwmnïau effeithlon sy'n gweithredu fel meincnod ar gyfer eraill yn y sector.

Cwsmeriaid yn talu llai

Mae gwneud yn siŵr bod cwmnïau'n darparu gwasanaeth diogel a dibynadwy ac yn cyflawni canlyniadau y mae cwsmeriaid eu heisiau yn hollbwysig. Yr un mor bwysig yw gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau hynny ar gost y mae cwsmeriaid yn barod i'w dalu ac yn gallu fforddio ei dalu.

Gwnaeth y rhan fwyaf o gwmnïau wrando ar bryderon eu cwsmeriaid ynglŷn â gwerth am arian a fforddiadwyedd. Gwnaethant hefyd ystyried barn eu cwsmeriaid wrth gynhyrchu eu cynlluniau busnes.

£376

Cyfartaledd bil dŵr a dŵr gwastraff ar y cyd erbyn 2019-20

Bydd cwsmeriaid yn talu £3 biliwn yn llai nag a gynigiwyd mewn cynlluniau busnes cwmnïau o ganlyniad i'n her

£1.5 biliwn yn llai yn 2015-20

-4%

Y swm y bydd biliau yn is erbyn 2019-20 nag y byddent wedi bod o dan gynlluniau gwreiddiol cwmnïau

Bydd biliau dŵr a dŵr gwastraff 5% yn is ar gyfartaledd yn 2019-20 o gymharu â 2014-15

Gofynnwyd hefyd i gwmnïau ystyried sut y gallent wella cefnogaeth i'r rheini a allai ei chael hi'n anodd talu eu bil. O ganlyniad:

- dros y pum mlynedd nesaf mae cwmnïau yn rhoi mesurau ar waith, megis tariffau cymdeithasol, a ragwelir fydd yn helpu un miliwn yn rhagor o bobl. Bydd hyn yn mwy na dyblu nifer y bobl sy'n elwa gan gefnogaeth ariannol i tua 1.8 miliwn erbyn 2020; ac
- ar hyn o bryd mae tua 60,000 o bobl yn elwa o dariffau cymdeithasol, sy'n gosod cap ar filiau ar gyfer y rheini sy'n ei chael hi'n anodd talu. Mae disgwyl i'r ffigur hwn godi i dros 850,000 o bobl yn elwa erbyn 2020.

Bydd angen i gwmnïau benderfynu ar ba lefel y byddant yn gosod taliadau i gwsmeriaid bob blwyddyn. Nid yw rheolaethau prisiau yr un peth â biliau i gwsmeriaid: mae rheolaethau prisiau yn gosod terfynau cyffredinol ar gyfer yr arian y gall cwmnïau ei gasglu gan eu cwsmeriaid, beth sydd angen iddynt ei gyflawni i'w cwsmeriaid yn gyfnewid ac unrhyw wobrau neu gosbau yn dibynnu ar a ydynt yn mynd y tu hwnt i neu'n syrthio'n brin o'r disgwyliadau. Mae gan gwmnïau beth hyblygrwydd i osod taliadau blynyddol o fewn y cyfyngiadau hyn. Bydd y taliadau cyntaf a osodir yn dod i rym ym mis Ebrill 2015.



£1.5 biliwn
yn llai ar ôl 2020

Gwrando ar gwsmeriaid

Pan siaradodd South Wales Water â'i gwsmeriaid canfu eu bod yn hoffi ei gynlluniau, ond roeddent yn pryderu ynglŷn â'r gost. O ganlyniad, daeth y cwmni o hyd i ffyrdd i ostwng costau ei gynlluniau, gan arwain at leihad gwerth £31 mewn biliau arfaethedig, tra'n dal i gyflawni'r hyn yr oedd cwsmeriaid am ei weld. Wedi hyn derbyniodd ei gynlluniau 84% o gymeradwyaeth cwsmeriaid a bydd biliau yn gostwng gan 7% yn is na chwyddiant.



Cwsmeriaid yn talu llai

Newidiadau i gyfartaledd bil ar y cyd blyneddol ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth (£)

Penderfyniad terfynol Ofwat				Ceisiadau Rhagfyr 2013 Cwmnïau
	2014-15	2019-20	Newid pum mlynedd	Newid pum mlynedd
Bil cyfartalog cenedlaethol	£396	£376	-5%	-2%
Anglian	431	390	-10%	-8%
Dŵr Cymru	440	416	-5%	-4%
Northumbrian	388	382	-1%	0%
Hafren Trent	333	316	-5%	-4%
Southern	437	403	-8%	-2%
South West	545	506	-7%	-4%
Thames	370	353	-5%	3%
United Utilities	410	398	-3%	0%
Wessex	485	442	-9%	-4%
Yorkshire	373	361	-3%	-1%

Chwyddiant

Chwyddiant yw cynnydd ym mhris nwyddau neu wasanaethau yr ydym yn eu prynu. Cesglir y ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

Mae chwyddiant yn effeithio ar y costau y mae cwmnïau'n eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Rydym yn caniatáu iddynt addasu elfen gyfanwerthol eu costau (tua 90% o gyfanswm eu costau) yn unol â chyfradd chwyddiant, cyn wedyn eu herio i gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Ni chaiff y rheolaethau pris manwerthol eu haddasu'n awtomatig ar gyfer chwyddiant gan nad ydym yn ei ystyried yn briodol ar gyfer y busnesau manwerthol llai dwys o ran asedau a chyfalaf.

Golyga hyn y bydd chwyddiant yn effeithio ar y swm y bydd cwsmeriaid yn ei dalu. Nid yw ffigurau'r biliau a gyflwynir yma yn cynnwys effaith chwyddiant oherwydd nad ydym ar hyn o bryd yn gwybod beth fydd chwyddiant ym mhob un o'r pum mlynedd nesaf.



Newidiadau i gyfartaledd bil dŵr blynyddol ar gyfer cwmnïau dŵr yn unig (£)

Penderfyniad terfynol Ofwat				Ceisiadau Rhagfyr 2013 Cwmnïau
	2014-15	2019-20	Newid pum mlynedd	Newid pum mlynedd
Affinity	176	163	-7%	-4%
Bristol	202	160	-21%	1%
Dyffryn Dyfrdwy	152	149	-2%	8%
Portsmouth	97	96	-1%	-1%
Sembcorp Bournemouth	153	134	-12%	-6%
South East	201	194	-3%	3%
South Staffordshire	141	135	-4%	2%
Sutton & East Surrey	186	180	-3%	-5%

1. Noder bod pob bil ym mhrisiau 2014-15. Yn ogystal â lwfans cadarnhaol neu negatiff gan Ofwat, gall cwmnïau godi elfen gyfanwerthol eu biliau yn unol â chwyddiant (RPI) ar sail blwyddyn wrth flwyddyn. Noder bod ffigurau'r biliau yn yr atodiadau cwmni-benodol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon mewn prisiau 2012-13.
2. Nid yw'r bil ar y cyd cyfartalog ar gyfer South West yn adlewyrchu cyfraniad Llywodraeth gwerth £ 50 y cwsmer tuag at filiau preswyl. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r buddsoddiad sylweddol sydd ei angen yn y seilwaith a etifeddodd y cwmni pan y'i preifateiddwyd er mwyn bodloni safonau amgylcheddol ac ansawdd dŵr yfed.
3. Mae ffigurau Thames Water yn cynnwys y costau ar gyfer gwaith paratoadol i adeiladu Twnnel Thames Tideway - twnnel carthffos 25km o hyd er mwyn delio â'r gormodedd o garthffosiaeth sy'n gorlifo i Afon Tafwys. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys costau ar gyfer adeiladu'r twnnel. Mae hyn oherwydd y caiff y twnnel ei gyllido a'i gyflawni gan ddarparwr seilwaith (IP) annibynnol. Disgwylir i'r IP gael ei benodi yn 2015.
4. Gall biliau dŵr cwsmeriaid cartref amrywio yn dibynnu ar eu defnydd dŵr a dŵr gwastraff. Bydd rhai cwsmeriaid preswyl yn derbyn biliau gan ddarparwyr dŵr a dŵr gwastraff gwahanol.
5. Cwmnïau sy'n gyfrifol am osod biliau. Y cwmnïau fydd yn penderfynu bob blwyddyn ar y lefel y byddant yn gosod taliadau ar gyfer cwsmeriaid yn gyson â penderfyniadau terfynol Ofwat.

Mwy am lai ar draws Cymru a Lloegr

Newidiadau prisiau ac ymrwymadau perfformiad dethol dros y pum mlynedd nesaf

Northumbrian

£
-1%

- Cynnal pibellau, gorsafoedd pwmpio a gweithiau trin ('seilwaith') er mwyn darparu'r gwasanaeth dŵr y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl. Mae hyn yn cynnwys rheoli materion megis pwysedd isel a phibellau prif gyflenwadyn byrstio.
- Cynnal seilwaith er mwyn darparu'r gwasanaeth dŵr gwastraff y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl. Mae hyn yn cynnwys rheoli carthffosydd sy'n dymchwel, digwyddiadau llygredd a charthffosydd yn gorlifo.
- Lleihau'r amser a gollir oherwydd amhariadau i gyflenwad gan tua 30%.

Yorkshire

£
-3%

- Cynnal rhwydwaith carthffosydd er mwyn rhoi gwasanaethau sefydlog a dibynadwy yn unol â disgwyliadau cwsmeriaid.
- Lleihau'r amser a gollir oherwydd amhariadau i gyflenwad gan fwy na 15%.
- Targed o ddim digwyddiadau llygredd mawr erbyn 2020, a lleihad gan tua 16% mewn digwyddiadau eraill o lygredd.

United Utilities

£
-3%

- Lleihad gan 49% yn nifer yr eiddo yr effeithir arnynt bob blwyddyn gan garthfossydd mewnol yn gorlifo.
- Lleihau'r amser a gollir oherwydd amhariad i gyflenwad gan fwy na 30%.
- Cynnal pibellau, gorsafoedd pwmpio a gweithiau trin ('seilwaith') er mwyn darparu'r gwasanaeth dŵr y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl. Mae hyn yn cynnwys rheoli materion megis pwysedd isel a phibellau prif gyflenwad yn byrstio.

Dŵr Hafren Trent

£
-5%

- Lleihad gan 21% yn nifer yr eiddo yr effeithir arnynt bob blwyddyn gan garthfossydd mewnol yn gorlifo.
- Lleihau'r amser a gollir oherwydd amhariadau i gyflenwad gan bron i 50%.
- Darparu ffynhonnell amgen o gyflenwad dŵr i Birmingham, er mwyn gwella gwytnwch cyflenwadau ar gyfer tua chwarter miliwn o bobl.

Dŵr Cymru

£
-5%

- Lleihad gan 8% mewn lefelau gollyngiadau.
- Lleihad gan 14% yn nifer yr eiddo yr effeithir arnynt gan garthfossydd mewnol yn gorlifo.
- Lleihau nifer y digwyddiadau llygredd categori 3 gan dros 40%.

Anglian

£
-10%

- Lleihau'r amser a gollir oherwydd amhariadau i gyflenwad gan bron i 40%.
- Lleihad o 27% mewn digwyddiadau o lygredd.
- Cynyddu cyfran y traethau sy'n cyflawni statws 'rhagorol' o 58% i 67%.

Wessex

£
-9%

- Gwelliannau sylweddol mewn ansawdd dŵr afon drwy fuddsoddi mewn gweithiau trin carthffosiaeth.
- Lleihad gan 6% yn nifer y digwyddiadau blynyddol o garthfossydd yn gorlifo.
- Targed o beidio cael gwaharddiad pibellau dŵr.

Thames


£
-5%

- Lleihad gan 10% yn nifer y digwyddiadau blynyddol o eiddo yn cael eu heffeithio arnynt gan garthfossydd mewnol yn gorlifo.
- Lleihad gan 9% mewn lefelau gollyngiadau.
- Gwaith paratoadol ar gyfer adeiladu Twnnel Thames Tideway, prosiect i ddelio â'r broblem o ormod o garthffosiaeth yn mynd i mewn i Afon Tafwys.

South West

£
-7%

- Gwella ansawdd dŵr ymdrochi mewn 15 o safleoedd, fel bod pob traeth yn cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i safonau amgylcheddol erbyn 2020.
- Lleihad gan 14% yn y digwyddiadau blynyddol o eiddo yn cael eu heffeithio arnynt gan garthfossydd mewnol yn gorlifo.
- Lleihau nifer yr oriau a gollir o herwydd amhariadau i gyflenwad gan 25%



Dyffryn Dyfrdwy

- Uwchraddio gwaith trin dŵr er mwyn darparu'r lefel gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd a gwedd priodol i ddŵr yfed.
- Lleihau yr amser a gollir o herwydd amhariadau i gyflenwad gan tua 40%.



Affinity

- Lleihad gan 14% mewn lefelau gollyngiadau.
- Diogelu'r amgylchedd drwy leihau swm y dŵr a dynnir o afonydd gan tua 42 miliwn litr y dydd.



South Staffordshire

- Lleihau nifer sy'n cysylltu ynglŷn â derbynoldeb dŵr gan dros 30%.
- Cynnal perfformiad 25% uchaf mewn rheoli faint o amser a gollir oherwydd amhariadau i gyflenwadau.



South East

- Lleihad gan 5% mewn lefelau gollyngiadau erbyn 2020.
- Lleihau cyfartaledd yr amser a gollir o herwydd amhariadau i gyflenwad gan tua 8%



Sutton & East Surrey

- Lleihau yr amser a gollir o herwydd amhariadau i gyflenwad gan tua 30%
- Lleihau lefelau gollwng gan 2%.



Bristol

- Lleihad gan 10% mewn lefelau gollyngiadau erbyn 2020.
- Gwell gwytnwch cyflenwadau er mwyn lleihau nifer y bobl sydd mewn perygl o golli eu cyflenwadau dŵr gan 97% - o tua 290,000 o bobl i 9,000 o bobl.



Portsmouth

- Lleihad gan 1% mewn lefelau gollyngiadau.
- Lleihad gan 5% yn y nifer sy'n cysylltu ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed, yn cynnwys materion megis lliw, arogl a blas.



Southern

- Lleihad gan 30% yn y digwyddiadau blynyddol o eiddo yn cael eu heffeithio arnynt gan garthfositydd mewnlol yn gorlifo.
- Gwella ansawdd dŵr ymdrochi, gyda tharged o saith traeth arall yn cael statws 'rhagorl'.
- Targed o ddim cwsmeriaid yn cael eu heffeithio gan waharddiad defnydd dros dro cyn dau aeaf sych yn olynol.



Sembcorp Bournemouth

- Cynnal pibellau, gorsafoedd pwmpio a gweithiau trin ('seilwaith') er mwyn darparu'r lefel gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.
- Lleihau lefelau gollwng gan 7%.

Mae'r rhif canran yn dangos faint y bydd y bil cyfartalog yn newid cyn chwyddiant rhwng 2015 a 2020. Gweler tudalennau 14 a 15 am ragor o fanylion.

Sylfaen ar gyfer y dyfodol

Mae ein hadolygiad prisiau yn sylfaen ar gyfer strategaeth a gweledigaeth Ofwat yn y dyfodol.




Mae gennym hefyd weledigaeth y bydd y sector yn un y mae gan gwsmeriaid ymddiriedaeth a hyder ynddo. Credwn y dylai pawb gael ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig a ddarperir gan y sector hwn. Hynny yw:

- Ymddiriedaeth a hyder yn ansawdd ein dŵr yfed.
- Ymddiriedaeth a hyder yng ngwytnwch gwasanaethau – y byddant yn werth am arian ac yn fforddiadwy.
- Ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaeth cwsmeriaid a thriniaeth deg.
- Ymddiriedaeth a hyder yn stiwardiaeth yr amgylchedd.
- Yn fwy cyffredinol, ymddiriedaeth a hyder na fydd penderfyniadau a wneir heddiw yn tloedi cenedlaethau'r dyfodol.



Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae angen i'r sector adeiladu ar yr hyn y mae wedi ei gyflawni yn yr adolygiad prisiau hwn. Rhaid i gwmnïau barhau i gryfhau perthynas â'u cwsmeriaid a'u rhanddeiliaid, gan gydnabod pwysigrwydd y sector cyfan ar gyfer yr amgylchedd, yr economi a'r gymdeithas yn ehangach.

Rydym yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar gwmnïau i fod yn berchen ar y cydberthnasau hyn, fel y gallant ddeall pa flaenoriaethau y mae eu cwsmeriaid a chymdeithas yn eu disgwyl. Mae'n bwysig bod cwmnïau'n cydnabod y gall y blaenoriaethau hyn newid dros amser a'u bod yn gallu ymateb i'r newidiadau hyn er mwyn cyflawni'r canlyniadau y mae eu cwsmeriaid eisiau eu gweld. Rydym wedi gweld rhai enghreifftiau gwych o hyn yn yr adolygiad prisiau hwn. Mae cwmnïau wedi cynnig 522 o ymrwymïadau perfformiad a fydd yn eu gweld yn



cael eu gwobrwyo am wneud mwy o'r hyn mae cwsmeriaid eisiau a'u cosbi pan na fyddant yn cyrraedd y nod.

Cam pwysig tuag at adeiladu ymddiriedaeth a hyder fydd cwmnïau'n cyflawni'r hyn y maent wedi ymrwymo iddo yn eu cynlluniau busnes ac yn cynnal ymddiriedaeth cwsmeriaid eu bod yn gwneud hyn yn deg ac yn agored.

Wrth i ni roi rhagor o gyfrifoldeb i gwmnïau rydym yn disgwyl iddynt barhau i roi digon o sicrwydd er mwyn rhoi'r hyder i ni a'u cwsmeriaid eu bod yn cyflawni'r hyn y maent wedi ymrwymo iddo. Byddwn yn defnyddio dull seiliedig ar risg ar gyfer y sicrwydd hwnnw ac yn camu i mewn pan fydd angen. Pan fydd cwmnïau'n rhoi sicrwydd i ddangos eu bod wedi gwella a'u bod yn cyflawni ar gyfer cwsmeriaid, fe welant ein bod yn cymryd ymagwedd llai ymwthiol tuag at reoleiddio. Pan na fydd cwmnïau'n llwyddo i'n hargyhoeddi, efallai y gwelant fod ein hymagwedd tuag at reoleiddio yn eithaf beichus. Mae hyn eto'n adeiladu ar PR14, lle gwnaethon nifer fechan o ymyrdiadau yng nghynlluniau busnes y cwmnïau 'gwell'.

Mewn paratoad ar gyfer agor y farchnad manwerthu ddibreswyl, diwygiad i fyny'r gadwyn gyflenwi a'r adolygiad prisiau nesaf yn 2019, byddwn yn herio ac yn procio'r sector i feddwl yn arloesol ynglŷn â beth mae'n ei wneud a sut mae'n ei wneud. Bydd rhan o hyn yn ein gweld yn annog y sector i ddatgelu gwell gwybodaeth, fel y gall cwsmeriaid gael ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaeth cyhoeddus hollbwysig hwn.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr yn darparu gwasanaeth o ansawdd da ac effeithlon i gwsmeriaid am bris teg.



Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7533
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Ffotograffau © 2happy, a_glitch, brokenarts, Cakoo, Caliph, Costi, Environment Agency, Free Pixels, Getty Images, Highways Agency, iStockPhoto, Jinx!, JJ Ellison, Marganz, Rachael Towne, Stockvault, Transport for London, United Utilities

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o bapur gwastraff ôl-ddefnyddiwr wedi ei ddat-incio.
Rhagfyr 2014

ISBN 978-1-908116-86-4

© Hawlfraint y Goron 2014

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gsi.gov.uk.

